



Dyma fanylion cangen/grŵp lleol y Gymdeithas MND:

MND Association

PO Box 246 Northampton NN1 2PR

Ffoniwch: 0207 250 8447

E-bostiwch: campaigns@mndassociation.org

www.mndassociation.org

Rhif cofrestru'r elusen 294354

mnda

motor neurone disease
association
cymdeithas
clefyd motor niwron



Mae **30%**
o bobl sydd â
chlefyd niwronau
motor yn marw o
fewn 12 mis ar ôl
cael diagnosis

Clefyd niwronau motor: arweiniad i gynghorwyr

Bwriad y daflen fer hon yw eich helpu i ddeall MND, a rhoi gwybod i chi sut gallwch chi helpu etholwyr sydd â'r cyflwr.

Beth yw MND?



Mae MND yn glefyd angheuol. Mae'n gwaethgu'n gyflym, ac yn effeithio ar ymennydd ac ar fadruddyn y cefn.

Gall adael pobl yn gaeth yn eu corff methodig eu hunain, yn methu symud na siarad ac, yn y pen draw, yn methu anadlu.

Mae'r risg y bydd rhywun yn datblygu MND yn ystod ei oes yn hyd at un mewn 300.

Mae'n lladd tua 30% o bobl o fewn 12 mis ar ôl y diagnosis, a mwy na 50% o fewn dwy flynedd.

Mae'n effeithio ar bobl o bob cymuned.

Does dim ffordd o'i wella.

Gwneud yn siŵr fod pobl sydd ag MND yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau priodol



Fel arfer, bydd anghenion gofal pobl sy'n dioddef o'r clefyd hwn yn gymhleth, ac fe all yr anghenion newid yn gyflym. Mae'r ffaith ei fod yn glefyd cymhleth, a'i fod yn gwaethgu'n gyflym, yn her fawr i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae llawer iawn o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn rhan o'r gwaith o ofalu am rywun sydd ag MND. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithwyr iechyd proffesiynol mewn canolfannau arbenigol a lleol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, hosbisau, gwasanaethau sy'n darparu cyfarpar, gwasanaethau tai a'r system budd-daliadau.

Mae'r rhwydwaith cefnogi cymhleth hwn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl sy'n dioddef o glefyd niwronau motor i fyw bywyd mor llawn â phosibl ac i farw gydag urddas.

Gan hynny, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cydgyssylltu'n dda a bod gweithwyr proffesiynol, comisiynwyr a'r rhai sy'n llunio polisiau, bob amser yn ystyried anghenion gofal pobl sydd ag MND.

Sut gallwch chi helpu fel cynghorydd



Fel cynghorydd, efallai y bydd gennych chi ddylanwad ar nifer o'r gwasanaethau mae pobl ag MND yn dibynnu arnyn nhw, fel:

- Gofal cymdeithasol.
- Tai ac addasiadau.
- Aseidiadau a gwasanaethau gofalwyr.
- Gofal iechyd.
- Trafnidiaeth gyhoeddus.



Fel cynghorydd fe allwch chi:

Hyrwyddo'r Siarter MND

Helpu i wneud gwahaniaeth i bobl ag MND a'u gofalwyr yn eich ardal drwy annog eich cyngor i fabwysiadu'r Siarter MND*

Mae mabwysiadu'r Siarter yn ffordd syml i chi a'ch cyngor godi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ag MND a phwysigrwydd y gofal priodol, yn y lle priodol, ar yr amser priodol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.mndassociation.org/mndcharter

Cefnogi pobl sydd ag MND yn eich etholaeth chi

Efallai y bydd eich etholwyr yn cysylltu â chi er mwyn:

- Gofyn am help pan fyddan nhw'n cael trafferth cael gafael ar wasanaethau lleol.
- Gofyn i chi gefnogi'r ymgyrch *Hyrwyddo'r Siarter*.
- Gofyn i chi gefnogi ymgyrch leol i newid neu wella gwasanaethau lleol.
- Gofyn i chi helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogi pobl leol sydd ag MND drwy fynd i ddiwyddiad neu gyfarfod.

Os hoffech chi gyfarfod pobl sydd ag MND yn eich ardal chi a chael gwybod sut i'w cefnogi, cysylltwch â grŵp neu gangen leol o'r Gymdeithas MND, a arweinir gan wirfoddolwyr.

Cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol

Dilynwch ein gwaith ymgyrchu ar Facebook a Twitter er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar bobl sydd ag MND a'u gofalwyr.

 @mndcampaigns

 @mndcampaignsWLS (*Cymru*)

 /mndcampaigns

*Mae'r Siarter MND yn ddatganiad ynghylch y parch, y gofal a'r cymorth mae'r bobl sy'n byw gydag MND a'u gofalwyr yn ei haeddu, ac y dylen nhw ei ddisgwyl.

Sut mae'r Gymdeithas MND yn helpu



Y Gymdeithas yw'r unig elusen genedlaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n canolbwyntio ar ofal, gwaith ymchwil ac ymgyrchu mewn perthynas â'r clefyd. Mae mudiad arall yn gofalu am yr Alban – www.mndscotland.org.uk

Rydyn ni'n cyllido 20 o ganolfannau gofal a rhwydweithiau MND mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaethau'r GIG ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydyn ni'n cyflogi 26 Cynghorydd Datblygu Gofal Rhanbarthol sy'n cadw mewn cysylltiad â phobl sy'n byw gyda'r clefyd ac yn gweithio i ddylanwadu ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Yn 2015, fe wnaethom rannu dros 46,000 darn o wybodaeth am ofal i bobl sydd â'r clefyd neu i bobl mae'r clefyd yn effeithio arnyh nhw. Mae gennym ni hefyd rwydwaith o ganghennau, grwpiau ac ymwelwyr gwirfoddol ar ran y Gymdeithas sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth emosiynol.

Rydyn ni'n cyllido ac yn hyrwyddo gwaith ymchwil sy'n arwain at well dealltwriaeth a thriniaethau newydd, ac yn



dod â ni gam yn nes at ddod o hyd i ffordd o wella pobl sy'n dioddef o'r clefyd. Ar 1 Chwefror 2016, roedd gwerth ein portffolio grantiau ymchwil yn £13.1 miliwn.

Yn 2014, roedd cyfanswm ein grantiau i helpu pobl sydd ag MND a'u gofaluwr i reoli'r cyflwr – er enghraifft drwy helpu i dalu i addasu'r cartref er mwyn gallu parhau i fyw yno – yn £893,000. Fe wnaethom wario £247,000 ar roi benthg cyfarpar arbenigol i helpu pobl sy'n dioddef o'r clefyd i gyflawni tasgau bob dydd ac i gyfathrebu.

Mae llawer o'r arian sy'n cael ei roi gan y Gymdeithas MND ar gyfer gofal, cyfarpar, a ffyrdd eraill o gefnogi pobl sydd ag MND i dalu am wasanaethau y gallai neu y dylai'r GIG neu awdurdodau lleol dalu amdanyh nhw. Ni fyddwn byth yn troi cefn ar rywun sydd ag MND, nac ar ofalwr, sydd mewn angen, ond nid ydyn ni o'r farn y dylid dibynnu ar arian elusennol i dalu am yr hyn nad yw'n cael ei ddarparu gan wasanaethau statudol.